**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

26 Gorffennaf 2016

Annwyl Nick

**BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU) DRAFFT**

Diolch am ymateb i ymholiadau'r Pwyllgor ynghylch darpariaethau'r Bil drafft ac am y wybodaeth a'r eglurhad ychwanegol a gawsom gan eich swyddogion mewn perthynas â'r Memorandwm Esboniadol.

Yn dilyn trafodaeth ychwanegol, mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar y newidiadau canlynol i'r Bil drafft yn:

- cynnwys y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau y bydd yr Ombwdsman eu cynnal ar ei liwt ei hun, o dan adrannau 5, ar wyneb y Bil (gan ddefnyddio'r meini prawf a nodwyd yn eich llythyr dyddiedig 7 Mehefin 2017) ynghyd â phŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r meini prawf hynny (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol);
- cyfyngu ar y disgresiwn yn adran 16(2) fel nad oes rhaid paratoi cynnig i gynnal ymchwiliad o dan amgylchiadau cyfyngedig (hy ni fydd angen cynnig os bydd cysylltiad sylweddol rhwng ymchwiliad ar ei liwt ei hun ac unrhyw ymchwiliad arall);
- rhoi'r ddyletswydd yn adran 72 i adolygu'r modd y caiff y Ddeddf ei gweithredu ar y Cynulliad, yn hytrach nag ar Weinidogion Cymru.
- ail-ddrafftio'r diwygiadau canlyniadol yn Atodlen 5 i symleiddio ac egluro'r darpariaethau'n ymwneud â gweithio ar y cyd a chydweithredu, gan gynnwys diwygiad canlyniadol newydd i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant (Cymru) 2015 i egluro y gall yr Ombwdsmon a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol weithio ar y cyd;
- diwygio adran 65 i'w gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon rannu gwybodaeth ac ymgynghori ag unrhyw gomisiynydd / ymgynghorydd statudol a gaiff ei greu gan y Cynulliad yn y dyfodol; ac

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

- egluro y byddai’ch penodiad a’ch tâl yn parhau’n ddi-dor wedi i’r Bil ddod yn Ddeddf.

Hefyd, mae'r Cynghorydd Cyfreithiol wedi achub ar y cyfle i gymhennu’r modd y drafftiwyd ambell ran o’r Bil, gan gynnwys symud un adran. Nid yw'r un o'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar fwriad y polisi na sylwedd y Bil. Mae fersiwn ddiwygiedig o'r Bil yn Atodiad A. Rwyf hefyd yn amgáu fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â’r Bil (Atodiad B).

Mae'n bleser gennyf ddweud wrthych mai’r bwriad, ar hyn o bryd, yw cyflwyno’r Bil ddydd Llun 2 Hydref 2017. Gall y dyddiad hwn newid, fodd bynnag.

Ar ôl ei gyflwyno, bydd Pwyllgor Busnes y Cynulliad yn anfon y Bil at bwyllgor arall y Cynulliad arall i graffu ar ei egwyddorion cyffredinol ac mae'n debygol y bydd yn ofynnol i chi roi tystiolaeth i'r Pwyllgor hwnnw.

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*